GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

**Yr Adran Orthopteg**

# Syndrom Brown

**Gwybodaeth i gleifion**

---

**Beth yw Syndrom Brown?**

Problem gyda symudiad y llygad yw Syndrom Brown lle mae un neu'r ddau lygad yn ei chael hi'n anodd edrych i fyny. Mewn dros 90% o bobl gyda Syndrom Brown, dim ond un llygad sydd wedi'i affeithio. Mae fel arfer yno ers geni'r person.

**Nodweddion**

Mae'r llygaid fel arfer yn syth wrth edrych yn syth ymlaen,neu'n edrych i lawr. Yn y mannau hyn, mae golwg 3D normal.

Wrth edrych i fyny ac i un ochr gyda'r llygad sydd wedi'i affeithio, mae'r symudiad wedi'i gyfyngu. Wrth i'r llygad arall barhau i symud yn normal, mae hyn yn goygu nad yw'r llygaid wedi'u halinio. Weithiau, bydd gan y person symptomau wrth edrych yn y ffordd hon, er enghraifft, mae ychydig yn anghysurus.

Gall y person godi ei ên ychydig i osgoi defnyddio eu lygaid i edrych i fyny. Nid yw llawer o bobl yn gwybod eu bod yn gwneud hyn.

**Achosion**

Gelwir y cyhyr sy'n cael ei affeithio yn 'Uwch Arosgo' sy'n gweithio ar system pwli o'r enw Trochlea. Mae gewyn y tendon yn glynu pan na fydd yn rhedeg yn esmwyth drwy'r Trochlea.

Mae ychydig o resymau posibl am y cyfyngu hwn ar y modd y mae'r Uwch Arosgo'n symud drwy'r Trochlea:

- Datblygiadol – agoriad Trochlea bach neu wain o bilen trwchus o gwmpas y cyhyr.

- Llid – chwydd/ nodiwl bychan ar ewyn y cyhyr yn atal symudiad drwy'r Trochlea. Weithiau, mae'n bosibl y bydd y nodiwl yn gallu symud drwy'r Trochlea, ac felly byddai'r anhawster i edrych i fyny'n ysbeidiol. Os mai hyn yw'r achos, mae'n bosibl y clywir swn 'clicio' wrth i'r symudiad hwn ddigwydd.
- Gewyn 'Uwch Arosgo' anelastig
- Trawma – anaf sy'n affeithio'r cyhyr 'Uwch Arosgo'.

**Triniaeth**

Nid yw'r mwyafrif o bobl â Syndrom Brown angen triniaeth. Os bydd gan y person llygaid syth, golwg da a dim symptomau nid oes angen ymyrryd. Weithiau mae angen sbectol i wella'r golwg ond nid yw Syndom Brown yn cynyddu'r siawns o fod angen sbectol.

Pan welir Syndrom Brown mewn plant, maen nhw'n cael eu monitro yn yr Adran Orthopteg. Mae hyn i sicrhau bod eu golwg yn datblygu'n normal ac nad ydyn nhw'n dioddef gan unrhyw symptomau o'r cyflwr.

Os oes gan berson lygad croes/ dro yn y llygad wrth edrych yn syth ymlaen neu os bydd pen person mewn man anghyfforddus i gadw'r llygaid yn syth, mae'n bosibl y bydd llawfeddygaeth yn beth da. Fel arfer, argymhellir llawfeddygaeth dim ond am symptomau difrifol gan fod y canlyniadau'n gallu bod yn anrhagweladwy.

Mae rhai achosion o Syndrom Brown yn gwella'n ddigymell gydag amser. Mewn plant, mae'n well aros a gweld os bydd y cyflwr yn gwella wrth iddyn nhw dyfu.

**Nodiadau neu gyfarwyddiadau pellach:**

________________________________________________________

________________________________________________________

________________________________________________________

________________________________________________________

________________________________________________________

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/**
**This document is available in English**